

Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich Cyf/Your Ref:

Ein cyf/Our ref: MA-L/MD/0283/18

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Y Cynulliad Cenedlaethol

SeneddFinance@assembly.wales

4 Mehefin 2018

Annwyl Simon

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Ebrill ynghylch Bil lechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).

Yn eich llythyr, rydych yn nodi goblygiadau ariannol posibl a allai godi o gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol, ac rydych yn gofyn am gadarnhad na fydd yr effeithiau ychwanegol yn sgil gweithredu'r polisi, ac unrhyw leihad canlyniadol yn y doll alcohol, yn effeithio ar y cyllid a ddarperir ar gyfer Cymru.

Gan ddefnyddio egwyddorion y fframwaith cyllidol, yng nghyd-destun Bil lechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), mae'n bwysig cydnabod yr amodau a fyddai'n peri i unrhyw effeithiau ychwanegol gael eu hystyried. Mae'r fframwaith cyllidol yn dweud: "The UK and Welsh governments have also agreed behavioural effects can be accounted for in exceptional circumstances, where the effects are material and demonstrable, and both governments agree it is appropriate to do so."

Ni ddisgwylir i effaith yr isafbris uned ar doll alcohol y DU, fel y mae wedi ei hamcangyfrif yng Nghymru, fod yn berthnasol at y dibenion hyn. Fel y nodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei ymateb i argymhelliad tri gan y Pwyllgor Cyllid: "Yn ôl y dadansoddiad diweddaraf gan Grŵp Ymchwil Alcohol Prifysgol Sheffield o effaith isafbris uned yng Nghymru, amcangyfrifir y bydd pob polisi ar isafbris uned yn arwain at ostyngiad yng nghyfanswm y dreth a geir o dollau alcohol, a bod y gostyngiadau hyn yn mynd i gynyddu'n gyflymach pan fydd lefelau'r isafbris uned yn fwy na

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

55 ceiniog. O ganlyniad, amcangyfrifir y bydd y refeniw blynyddol i'r trysorlys o dollau alcohol a TAW yng Nghymru yn syrthio o 0.4% neu £1.9miliwn, os rhagnodir isafbris uned o 50 ceiniog. Os bydd isafbris uned yn 55 ceiniog, amcangyfrifir y bydd y refeniw blynyddol i'r trysorlys yn syrthio o £2.1 miliwn, a phe byddai'r isfabris uned yn 60 ceiniog byddai'r refeniw hwnnw'n syrthio o £3 miliwn."

Fel y dywedir yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil, mae nifer o effeithiau eraill a allai ddigwydd yn sgil cyflwyno isafbris uned, a gallai'r rheini gynhyrchu arbedion ariannol i Lywodraeth y DU. Mae'n bwysig cydnabod mai proses gymesur yw trin effeithiau ymddygiadol ac y byddai angen ystyried y costau a'r manteision ochr yn ochr.

Hefyd, er mwyn ystyried effeithiau ychwanegol, byddai angen tystiolaeth gadarn ynghylch yr effeithiau hynny, ac ni fyddai honno ond ar gael ar ôl gweithredu'r isafbris.

Fel y dywedwyd yn yr ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i adroddiad y Pwyllgor Cyllid, mae swyddogion Trysorlys Cymru wedi trafod y Bil gyda swyddogion yn Nhrysorlys ei Mawrhydi o ran y posibilrwydd y gallai fod effeithiau ariannol sy'n gysylltiedig â chyflwyno isafbris ar gyfer alcohol yng Nghymru, yng nghydestun y Datganiad o Bolisi Ariannol a'r fframwaith cyllidol. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod yna gytundeb nad yw'r amodau ar gyfer effeithiau ychwanegol yn berthnasol.

Yn gywir



Mark Drakeford AM/AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid